

Galwad

Ydych chi'n anogwr?

Roedd gan Paul yr Apostol y ddawn i annog eraill. Gwelwn hyn yn rhedeg trwy ei lythyrau. Bu'n cadarnhau, annog a galluogi eraill.

Nodweddion anogwr

- Maen nhw'n cymryd amser i wrando ar beth mae eraill yn ei ddweud ac yn ei gadarnhau.
- Maen nhw'n diolch i bobl yn gyson, gan gydnabod y pethau bychain yn ogystal â'r pethau mawr.
- Maen nhw'n gweld cyfleoedd i adael i bobl roi cynnig ar rywbeth.
- Maen nhw'n adnabod doniau mewn eraill ac yn ceisio helpu pobl i'w tyfu.
- Maen nhw'n cadarnhau pobl trwy ddefnyddio geiriau caredig ac yn mynegi pethau'n gadarnhaol.
- Maen nhw'n gweddïo dros bobl ac yn gadael iddyn nhw wybod eu bod gweddïo drostynt.
- Maen nhw'n aml yn y cefndir, ond yn hanfodol i bobl dyfu eu doniau a'u defnyddio dros Dduw.
- Maen nhw'n gwneud cysylltiadau rhwng doniau a rolau pobl yn yr Eglwys.
- Maen nhw'n cymryd amser i ddarganfod cyfleoedd dysgu posibl ac yn annog pobl i gymryd rhan.
- Maen nhw'n chwilio am ffyrdd o ddatlu beth mae pobl yn ei wneud a'r doniau sydd ganddynt.
- Maen nhw'n cymryd amser i ddod i adnabod eraill, beth yw eu hangerdd, eu diddordeb ar hyn sy'n eu cymell.
- Maen nhw'n canolbwyntio ar y pethau sy'n mynd yn dda, nid ar y pethau sydd angen gwella.
- Maen nhw'n rhoi adborth yn bwyllog er mwyn adeiladu eraill i fyny ac nid creu embaras iddynt neu eu mathru.

Enghreifftiau

Effesiaid 1:15-16
Effesiaid 3:14-19
Philipiaid 1:3-11
Colosiaid 1:9-11
1 Thesaloniaid 1:3-4
2 Thesaloniaid 1:11-12
2 Timotheus 1:3
Philemon 4-7